

## CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

### **Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 29ain o Awst 2018 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

**Presennol;** Cynghorwyr Elwyn Jones, Iwan Foulkes , Arfon Hughes, Tegwyn Jones, Idris Jones, Berwyn Hughes, Berwyn Harding, Geraint Morgans, Cyng. John Pughe Roberts, a Huw T Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau; Cyng. Catrin Jones.

#### **1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf:**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 27ain o Fehefin fel rhai cywir.

#### **2. Materion yn codi .**

- a) **Cwynion am y Post Brenhinol** – adroddwyd ymateb oedd i law dyddiedig 7fed Gorffennaf, a'r ymrwiniad ganddynynt i wella'r sefyllfa.
- b) **Arian a ddsorennir gan 'Ddol y Plwy'** – adroddodd Cyng. John P Roberts ei fod wedi codi'r mater, a'i fod yn disgwyl cael e-bost gan yr Eglwys cyn adrodd yn llawn.
- c) **Swyddfa Bost yn Neuadd Dinas** – darllenwyd eu llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf. Roedd ymddiheuriad am y sefyllfa, a byddai rhaid cadw llygad ar y sefyllfa.
- d) **Meddygfa Glanwymyn** – adroddodd Cyng. Iwan Foulkes am yr hyn a drafodwyd yno, a darllenodd y Clerc y datganiadau gan ddoctoriaid yno. Nodwyd ein tristwch am y sefyllfa, a bod gwasanaethau hanfodolyn mynd o'n gafael fel cymuned. Gofynnwyd paham fod raid l ddoctoriaid o'r practis yma weithrdu fel 'locum' mewn ardaloedd eraill. Gwelwyd y dylid danfon llythyr at Y Gweinidog Iechyd Vaughan Gething i amlinellu ein hanfodlonrwydd am y sefyllfa, a gofyn am gyfarfod.
- e) Darllenwyd ymatebion i'r **holl faterion priffyrdd** ers y cyfarfod diwethaf. Nodwyd fod y chwyn Himalayan Balsam o'r Tyrpeg at dro Groeslwyd. Nodwyd hefyd fod twll yn y ffordd A470 ger y tro i Melin Meirion.

#### **3. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw geisiadau l'w hystyried.

#### **4. Materion Cyllid.**

Adroddodd y Clerc ei fod wedi ymateb i nifer o ymholiadau gan y Cyfrifwyr allanol BDO dros yr wythnosau diwethaf.

Adroddwyd fod ail ran y praesept l law, sef £4,200.

Roedd un cais am arian l law, sef gan Marie Curie. Cytunwyd ar gyfraniad o £50.

## 5. Gohebiaeth.

- a) Darllenwyd lythyr y Parc Cenedlaethol ynglyn ag ymgynghoriad ar Gynllun Eryri. Adroddwyd am eu harddangosfa deithiol, a oedd yn cynnwys un yn y Ganolfan Groeso yn Aberdyfi o'r 3ydd o Fedi hyd at 16eg o Fedi. Cytunodd Elwyn Jones, Iwan Foulkes ac Arfon Hughes i fynychu.
- b) Nodwyd wahoddiad i gyfarfodydd cyswllt blynyddol rhwng Cynghorau Cymuned a'r Parc Cenedlaethol. Cytunodd Elwyn Jones ac Iwan Foulkes fynychu y cyfarfod yn Aberdyfi Nos Fawrth yr 2ail o Hydref rhwng 6.30pm a 8.30pm.
- c) Adroddwyd am lythyr Steven Tibbetts fod Wales Rally GB 4-7fed Hydref yn dod i'r ardal unwaith eto. Roedd y manylion wedi ei ddanfôn i bawb ar e-bost eisoes.
- d) Roedd bwletin Un Llais Cymru wedi ei ddanfôn i bawb ar e-bost.
- e) Darllenwyd yn llawn lythyr Liz Saville Roberts AS ynglyn ag ymgynghoriad mae hi yn ei wneud ar bwnc hedfan isel. Roedd hyn wedi bod yn fater o gryn bryder yn yr ardal yn ddiweddar, ac roedd hi wedi derbyn nifer cynyddol o gwynion gan etholwyr am awyrennau milwrol yn hedfan yn hwyr yn y nos. Roedd yn awyddus i gael barn unigolion a busnesau sy'n byw a gweithio yn ardal y 'Mach Loop' boed o blaid neu yn erbyn. Byddai modd i gynghorwyr fel aelodau unigol, y Cyngor fel corff, neu aelodau o'r cyhoedd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig – ar ffurf llythyr neu e-bost. Roedd angen gwybod yr effaith ar drigolion yr ardal, yr economi, neu unrhyw sylwadau eraill.

Trafodwyd y mater yn faith, gyda chyfle i bob Cynghorydd fynegi safbwynt.

Mynegwyd pryder arbennig am yr awyrennau sy'n hedfan yn y nos, ac effaith hyn ar deuluoedd ifanc yn yr ardal. Rhoddwyd engreiffiau o blant yn methu cysgu, a bod y swm yn achosi dychryn a braw. Cyfeiriwyd hefyd at y cwynion fod yr awyrennau jet yn dychryn plant yn ystod y dydd – gan gyfeirio at yr Ysgol Feithrin a'r Ysgol Gynradd yn y Dinas – a phaham bod rhaid hedfan mor isel dros yr ysgol. Mynegwyd barn gryf fod hyn yn gwbwl annerbyniol – roedd yn sefyllfa drist - ac roedd rhaid cofio hefyd fod yr holl swm yn effeithio at bobl hyn ein hardal.

Gofynnwyd paham fod rhaid inni ddioddef hyn, a bod y nifer o awyrennau hedfan isel yn sicr wedi cynyddu yn yr 20 mlynedd diwethaf. Cyfeiriwyd hefyd fod y swm difrifol yn aflonyddu ac effeithio ar anifeiliaid.

Adroddwyd pa mor annerbyniol yw gweld nifer fach o bobl yn defnyddio ein hardal i'w blaenoriaethau hwy. Roedd yr hedfan isel yn cael ei weld yn 'Sioe Awyrennau' i'w fwynhau gan bobl o tu allan yr ardal. Gwnaethpwyd y gymhariaeth a Thryweryn, gyda chyfoeth ein hardal yn cael ei ddwyn oddiarnom. Gwelwyd fod yn bwysig bob amser fod barn pobl sy'n byw yn yr ardal yn cael blaenoriaeth.

Mynegwyd barn gryf am ddiffyg gwybodaeth yn lleol o pryd mae'r hedfan isel yn digwydd. Ond roedd yn amlwg fod yna griw bach oedd yn ymddiddori yn hyn fel pleser iddynt eu hunian yn gwybod yr union amserau. Onid oedd yna berygl y gallai'r gwybodaeth fynd i ddwylo anghywir – fel terfysgwyr er engrafft – gydag oblygiadau difrifol.

Gofynnwyd paham fod cymaint o defnydd o'r ardal hon, tra dylai fod yna ardaloedd tebyg megis anialdir yn yr Alban ddylai fod yr un mor addas. Roeddem yn sicr yn cymryd mwy na'n siar. Mynegwyd barn gryf hefyd paham fod awyrlu yr Unol Dalieithau Amerig yn defnyddio yr ardal hon i ymarfer – roedd hyn yn gwbwl annerbyniol. Onid oes yn a lefydd cymwys yno i ymarfer?

Tra'n derbyn fod rhai busnesau yn elwa o'r pobl sy'n dod i'r ardal i wylïo'r awyrennau, adroddwyd fel y mae cymaint o dwristiaid yn dod i'r ardal i fwynhau y

tawelwch, a bod yr awyrennau yn amharu ar eu mwynhad. Gofynnwyd tybed faint mae y diwydiant twristiaeth yn cael ei effeithio gan yr hedfan isel?

Amlinellwyd hefyd y problemau sydd yn codi ar ben Bwlch yr Oerddrws a mannau eraill cyfagos oherwydd fod cymaint o barcio yno yn gwylio'r awyrennau. Roedd bellach dim un lle i droi i mewn ar rai adegau – a gallai hyn arwain at oblygiadau difrifol yng nghyd destun diogelwch y ffordd.

Mynegwyd barn gryf hefyd o pa mor warthus yw gweld enwau cynhenid ein mynyddoedd a safleoedd o fewn yr ardal yn cael eu seisnigieddio gan bobl na wyddant ddim am gyfoeth ein hiaith, ein diwyllinat a'n treftadaeth.

Pwysleisiwyd mor bwysig yw fod pawb yn ymateb yn unigol i'r ymgynghoriad yma, a chyfeiriwyd at y llythyr agored i drigolion yr ardal gan Liz Saville Roberts. Roedd angen profiadau personol unigolion, ac unrhyw wybodaeth perthnasol allai fod yn ddefnyddiol, megis math o awyren, yr uchder, effaith ar deuluoedd ac ar yr economi. Byddai unrhyw fanylion cyswllt yn cael eu cadw yn gyfrinachol, ac ni fyddent yn cael eu defnyddio yn yr adroddiad terfynol gan yr Aelod Seneddol.

## **6. Unrhyw Fater arall.**

- a) Cyfeiriwyd at gyfarfod a gafwyd yn Aberangell gyda aelod o Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd ynglyn a nifer o faterion beth amser yn ol, a mynegwyd siom nad oedd dim wedi ei wneud fel canlyniad i hyn.
- b) Adroddwyd am broblemau enfawr yn codi yn ardal Aberangell fel canlyniad i feiciau modur yn 'scramblo' yn y goedwig – roedd diffyg parch mawr i'r ardal, gyda gatiâu yn cael eu gadael ar agor, problemau parcio, swm, a thannau yn cael eu cychwyn yn y goedwig. Roedd cyfarfod arbennig wedi ei drefnu yn y pentref ar Nos Fercher yr 20fed o Fedi, gyda chynrychiolwyr o wahanol gyrff yn dod ynghyd i gyfarfod trigolion yr ardal.
- c) Derbyniwyd geiriau caredig i longyfarch yr ardal ar Sioe Dinas Mawddwy.
- d) Roedd 'fly tipping' yn broblem ger rhiw Nantyrhalen ar yr A458, ac angen clirio.
- e) Cyfeiriwyd at yr angen i dorri gwrych/coed ochr y ffordd ar yr A458, yn arbennig rhwng Dugoed Bach a'r Tyrpeg, lle roedd yn beryglys iawn. Cyfeiriwyd hefyd unwaith eto at dyfiant gwrychoedd mewn mannau ar y ffordd gefn o Dinas i Aberangell, yn arbennig ger Penbont. Addawodd Cyng. Geraint Morgans i dynnu lluniau a'u danfon i'r Clerc i gael eu cynnwys gydag adroddiad i'r Cyngor.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 17eg o Hydref 2018 yn NEUADD DINAS MAWDDWY AM 7.30 O'R GLOCH**